

Ni fyddwch yn cael eich cyfrif at bwrpas cyfrifo Treth Cyngor os ydych yn perthyn i un o'r categorïau isod:

- myfyrwyr llawn amser, rhai sydd ar gynlluniau Hyfforddiant Ieuenctid, prentisiaid a myfyrwyr nyrsio
- cleifion mewn ysbyty
- pobl sydd mewn cartrefi gofal
- pobl ag anabledd dysgu difrifol /anhwylder iechyd meddwl
- pobl sy'n aros mewn rhai hosteli neu mewn llochesi dros nos
- pobl 18 neu 19 oed sydd yn yr ysgol neu newydd adael yr ysgol
- '**Gofalwyr**' - pobl sy'n gofalu am rhywun arall. Mae yna rai meini prawf:

- rhaid i'r gofalydd fod yn byw yn yr un eiddo â'r unigolyn sy'n derbyn gofal

- rhaid iddynt fod yn gofalu am o leiaf 35 awr yr wythnos ar gyfartaledd

- rhaid i'r unigolyn sy'n derbyn gofal fod yn derbyn rhai lwfansau sy'n cynnwys y gyfradd uchaf o'r gydran gofal Lwfans Byw i'r Anabl, yr elfen bywyd beunyddiol o'r Taliad Annibyniaeth Personol (ar unrhyw gyfradd) Lwfans Gweini (unrhyw gyfradd), Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, neu cyfradd uwch y Lwfans Gweini Cyson.

- **ni all** y person sy'n derbyn gofal fod yn briod neu blentyn dan 18 oed y gofalydd

- nid oes rhaid i'r gofalydd fod yn derbyn Lwfans Gofalwyr.

Cofiwch y gall fod yna fwy nag un person yn y cartref a all gael eu ystyried yn ofalwyr a all olygu fod y gostyngiad yn 25% neu 50% yn ddibynnol ar amgylchiadau y person sy'n derbyn gofal a pwy arall sy'n byw yn yr eiddo.

- gweithwyr gofal ar gyflog isel, yn gweithio fel arfer i elusennau, neu awdurdod lleol ac yn byw yn yr un eiddo â'r person sy'n derbyn gofal (mwy o fanylion ar gais)
- aelodau o gymunedau crefyddol nad oes ganddyn nhw unrhyw incwm na chyalaf
- aelodau o luoedd arfog tramor a rhai sefydliadau rhyngwladol
- carcharorion (os nad ydynt yn y carchar am beidio â thalu treth cyngor)
- pobl gyda breintiau diplomyddol
- priod myfyriwr tramor sydd hefyd ddim yn ddinesydd Prydeinig
- unigolion 24 oed neu lai sydd wedi gadael gofal, ac yn berson ifanc categori 3 fel a ddiffinir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeothasol a Llesiant Cymru 2014 (effeithiol o 1af Ebrill 2019)